**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13 Awst 2019

Annwyl Llyr,

**Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ystyried goblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn fanwl ac am eich adroddiad cynhwysfawr. Amgaeaf ymateb Comisiwn y Cynulliad i'ch adroddiad a'ch argymhellion. Mae'r ymateb hwn hefyd yn mynd i'r afael â materion a godwyd gennych yn eich llythyr ataf dyddiedig 27 Mehefin ac mae'n adlewyrchu'r drafodaeth yn ein cyfarfod ar 9 Gorffennaf.
Yn ogystal â'r ymateb manwl a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, hoffwn fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn eich adroddiad.

Cyfrifoldeb am weinyddu etholiadau

Mae nifer o'ch argymhellion yn ymwneud â gweinyddu etholiadau, yn enwedig pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar weinyddu etholiadau a phrosesau cofrestru a moderneiddio'r broses gofrestru etholiadol. Yn ystod y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf, esboniais mai mater i Lywodraeth Cymru yw gweinyddu etholiadau, nid y Comisiwn. Rwyf wedi trafod argymhellion y Pwyllgor gyda'r Cwnsler Cyffredinol, ac yn rhagweld y bydd yn ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion hyn maes o law.

Amcangyfrifon cost diwygiedig

Mae rhai o'ch argymhellion yn tynnu sylw at y ffaith y bydd angen i unrhyw amcangyfrifon cost diwygiedig ar gyfer y Bil gael eu nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig i'w gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2. Cadarnhaf, yn amodol ar unrhyw benderfyniad i'r gwrthwyneb o dan Reol Sefydlog 26.27, fod y Comisiwn yn bwriadu cyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Trefniadau ariannu’r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad

Mae eich adroddiad yn nodi pryder nad oedd darpariaethau o ran trefniadau ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad, a chostau'r darpariaethau hynny, wedi'u datblygu'n llawn cyn cyflwyno'r Bil.

Eglurais yn ystod dadl Cyfnod 1 y byddai wedi bod yn well gen i weld cynigion manwl yn cael eu cynnwys yn y Bil ar adeg ei gyflwyno. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cwblhau'r gwaith datblygu polisi cymhleth sydd ei angen mewn perthynas â'r mater hwn cyn cyflwyno'r Bil.

Rwy'n gwerthfawrogi pa mor bwysig ydyw i'r Pwyllgor Cyllid gael cyfle i ystyried goblygiadau polisi a goblygiadau ariannol newid trefniadau ariannu'r Comisiwn Etholiadol.

Fel y gwyddoch, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Comisiwn y Cynulliad, y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol yn ystod y ddadl Cyfnod 1 i ddarparu rhagor o wybodaeth am y trefniadau arfaethedig ar ôl toriad yr haf. Rwyf hefyd yn croesawu'r awgrym gan y Cwnsler Cyffredinol na fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Cynulliad gytuno i benderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil tan iddo ddarparu rhagor o wybodaeth am y cynigion mewn ymateb i'r pryderon y mae eich Pwyllgor wedi'u mynegi i mi.

Mewn cysylltiad â’r wybodaeth bellach hon gan y Cwnsler Cyffredinol, byddaf hefyd yn rhoi diweddariad pellach ar y dull a ffefrir gan Gomisiwn y Cynulliad o ymdrin â threfniadau craffu ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

Fel y gwyddoch, rwyf eisoes wedi dweud yn ystod dadl Cyfnod 1, fy mod yn credu y dylid sefydlu Pwyllgor newydd (Pwyllgor y Llywydd) i oruchwylio gwaith y Comisiwn Etholiadol. Byddai’r trefniant craffu hwn yn briodol iawn pe byddai’r Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Fel yr amlinellais yn fy llythyr dyddiedig 13 Mehefin 2019 at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, pe darperir y cyllid drwy gyllideb Comisiwn y Cynulliad, yna byddwn yn pryderu y gallai sefydlu Pwyllgor y Llywydd:

> “…arwain at orgyffwrdd â rôl y Pwyllgor Cyllid o ran craffu ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad, a allai arwain at drefniadau cyllidebu, adrodd a threfniadau archwilio cymhleth, a diffyg eglurder posibl ynghylch y corff sy’n bennaf cyfrifol am graffu ar y Comisiwn Etholiadol.”[1]

---

[1] Llythyr at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Ariannu’r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad, 13 Mehefin 2019.

Pa drefniadau craffu bynnag a roddir ar waith, rwyf o’r farn y dylai’r trefniadau ariannu ac atebolrwydd a roddir ar waith ar gyfer y Comisiwn Etholiadol gydymffurfio â Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid. Tra bod y Cwnsler Cyffredinol yn ystyried cynigion ariannu, byddaf yn parhau i drafod y mater hwn gydag ef. Edrychaf ymlaen at ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn maes o law.

Yn olaf, rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor – fel y'i nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 27 Mehefin – y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad, i gyd-fynd ag unrhyw welliannau i Fil a fyddai'n arwain at godi gwariant uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, yn nodi ei farn o ran a yw'r gwariant yn briodol. Pe bai'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn cael ei ddiwygio fel hyn, rwy'n rhagweld y byddai adroddiad o'r fath yn cael ei ymgorffori mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm Esboniadol, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.28.

Diolch i chi unwaith eto am graffu ar y ddeddfwriaeth gyfansoddiadol bwysig hon ac am y gwahoddiad a dderbyniwyd ar 17 Gorffennaf i fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor ar ddiwedd mis Medi i drafod y mater yma ymhellach. Ymatebaf i’r gwahoddiad hwnnw gynted ag y gallaf.

Yn gywir

Elin Jones

Y Llywydd, ar ran Comisiwn y Cynulliad



## Atodiad: Ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid yng Nghyfnod 1 ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu ymateb Comisiwn y Cynulliad i argymhellion i'r Comisiwn neu'r Llywydd a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar 28 Mehefin 2019 ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

***Argymhelliad 1.*** *Gan gydnabod y manteision cost o beidio ag ailosod arwyddion ar unwaith, mae pryder gan y Pwyllgor y gallai'r trywydd hwn arwain at ddryswch ychwanegol gan y cyhoedd ynghylch rôl y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyfleu'n glir er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd.*

**Cytuno**

Mae'r Comisiwn yn cytuno ei bod yn bwysig ei bod hi'n glir i'r cyhoedd beth yw enw eu deddfwrfa genedlaethol. Bydd yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, a bod y broses newid yr enw yn cyflawni ei amcan o wella dealltwriaeth o'r sefydliad a'i rôl.

***Argymhelliad 2.*** *Gan yr amcangyfrifir mai awdurdodau lleol fydd yn talu'r rhan fwyaf o'r costau ar gyfer newidiadau i'r etholfraint, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywydd gynnal mwy o ymchwil i ddilysu neu ddiweddaru'r costau hyn, neu ymhelaethu ar sut roedd awdurdodau lleol wedi cymeradwyo'r costau. Dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.*

**Cytuno**

Bydd y Llywydd yn parhau i gael trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol, er mwyn rhoi sicrwydd o ran costau. Yn amodol ar unrhyw benderfyniad i'r gwrthwyneb o dan Reol Sefydlog 26.27, mae'r Llywydd yn bwriadu cyflwyno Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl cwblhau Cyfnod 2.

***Argymhelliad 3.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn trafod rhinweddau cyflwyno un gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Cynulliad, gan y gallai hyn olygu llai o lwyth gwaith gweinyddol i awdurdodau lleol na chynnal 22 o gofrestri ar wahân. Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.*

**Mater i Lywodraeth Cymru yw hwn, nid y Llywydd.**

Mae'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ymestyn etholfraint y Cynulliad i bobl ifanc 16 a 17 oed ond dim ond newidiadau bychain a gynigir i'r broses o gofrestru etholwyr i alluogi'r etholfraint i weithio'n effeithiol.

Nid yw'r Comisiwn yn gyfrifol am ddatblygu polisi mewn perthynas â gweinyddu etholiadau na chofrestru ar gyfer etholiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn ar un gofrestr etholiadol fel rhan o'i hymgynghoriad ar ddiwygio etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Llywydd wedi trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a gytunodd y byddai'n ymateb iddo.

***Argymhelliad 4.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd a Llywodraeth Cymru yn trafod yr arbedion cost posibl ar gyfer y dull cofrestru awtomatig. Dylai'r Llywydd a Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol arfaethedig.*

**Mater i Lywodraeth Cymru yw hwn, nid y Llywydd.**

Mae'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ymestyn etholfraint y Cynulliad i bobl ifanc 16 a 17 oed ond dim ond newidiadau bychain a gynigir i'r broses o gofrestru etholwyr i alluogi'r etholfraint i weithio'n effeithiol.

Nid yw'r Comisiwn yn gyfrifol am ddatblygu polisi mewn perthynas â'r gwaith o weinyddu etholiadau na chofrestru ar gyfer etholiadau. Mae'r Llywydd wedi trafod yr argymhelliad hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a gytunodd y byddai'n ymateb iddo.

***Argymhelliad 7.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio'r Bil hwn i ddarparu, ar wyneb y Bil, ddarpariaethau i sicrhau bod gwariant etholiadau'r Cynulliad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl yn dilyn etholiadau a refferenda'r Cynulliad.*

**Comisiwn y Cynulliad i drafod ymhellach**

Nid yw'r Comisiwn yn gyfrifol am y gwaith o weinyddu etholiadau. Felly, nid oedd y mater hwn o fewn cwmpas strategaeth ddeddfwriaethol y Comisiwn.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar 10 Gorffennaf bod Llywodraeth Cymru yn ystyried mesurau anneddfwriaethol i'w gwneud yn haws cyhoeddi gwybodaeth am wariant y Cynulliad ar etholiadau yn gyflymach.

Mae'r Llywydd yn ceisio sicrwydd pellach gan y Cwnsler Cyffredinol ar ran Comisiwn y Cynulliad. Yna bydd y Comisiwn yn trafod argymhelliad y Pwyllgor ymhellach a bydd y Llywydd yn ysgrifennu eto i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

***Argymhelliad 9.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y costau y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddiweddaru'r System Rheoli Etholiadol yn gadarn. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2 a dylai nodi safbwyntiau'r awdurdodau lleol ar briodoldeb y costau hyn.*

**Cytuno**

Efallai y bydd cyfyngiad o ran faint o wybodaeth fanwl y gellir ei datgelu am gostau diweddaru Systemau Rheoli Etholiadol, oherwydd y sensitifrwydd masnachol sy'n gysylltiedig â phrosesau caffael. Yn unol â'r cyfyngiad hwn, bydd y Comisiwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dilyn trafodion Cyfnod 2 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

***Argymhelliad 10.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Biliau arfaethedig gan Gomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid yn gallu craffu'n effeithiol ar yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r cynigion.*

**Cytuno**

Bydd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn parhau i gael eu cyflwyno i gyd-fynd ag unrhyw Filiau a gynigir gan Gomisiwn y Cynulliad yn y dyfodol, a bydd yr Asesiadau hynny'n nodi'r amcangyfrifon gorau fel sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog. Bydd hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid, a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn gallu asesu eu goblygiadau cost posibl yn gywir ac yn dryloyw.

***Argymhelliad 11.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn cynnwys costau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o estyn yr etholfraint i bobl 16 oed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a gyhoeddir ar ôl trafodion Cyfnod 2.*

**Cytuno**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn nodi'r costau codi ymwybyddiaeth sydd i'w darparu gan Gomisiwn y Cynulliad (£150,000), awdurdodau lleol (£866,200) a'r Comisiwn Etholiadol (£75,900).

Yn ogystal â hynny, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 30 Ionawr 2019 oddi wrth y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, amcangyfrifwyd y byddai'r costau i Lywodraeth Cymru o ran ymgyrchoedd cyfathrebu ac addysg sy'n gysylltiedig ag ymestyn yr etholfraint rhwng £895,000 a £945,000 dros dair blynedd, gan ddechrau yn 2019/20. Mewn trafodaethau dilynol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod y swm hwn yn cynnwys:

- £600,000 tuag at gynhyrchu adnoddau ar gyfer ysgolion;
- £215,000 i £265,000 tuag at ymgyrch gyfathrebu ar gofrestru ac annog pobl i bleidleisio; ac
- £80,000 tuag at waith ymchwil i lywio'r ymgyrch gyfathrebu.

Nid yw ffigurau Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng costau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth o newidiadau i'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad. Bydd rhai o'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol, yn hytrach na chanolbwyntio ar un neu'r llall.

Mae'r Llywydd wedi trafod y mater hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol. Nododd yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar 10 Gorffennaf 2019, er nad yw'n bosibl iddo rannu costau codi ymwybyddiaeth y Llywodraeth rhwng y ddau etholiad, y bydd yn gwneud ei orau i roi rhagor o wybodaeth i'r Cynulliad am y mater hwn.

***Argymhelliad 12.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd, Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol yn sicrhau bod cymdeithas sifil, megis ysgolion a sefydliadau ieuenctid yn cael eu cynnwys ar Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru, Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr a byrddau cydweithredol eraill sy'n gweithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth pleidleiswyr, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at waith i ddylunio deunydd ymwybyddiaeth pleidleiswyr.*

**Cytuno**

Mae'r Comisiwn yn cytuno bod angen i ni weithio mewn partneriaeth â chymdeithas sifil, ac yn arbennig sefydliadau ieuenctid ac ysgolion, i sicrhau y gellir newid yr etholfraint yn llwyddiannus ar gyfer etholiadau 2021 a thu hwnt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp diwygio democrataidd i gefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ymestyn yr etholfraint. Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf ar 2 Gorffennaf 2019. Bydd ei waith yn cael ei arwain gan Grŵp Llywio, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y Grŵp Llywio hwn yn llywio gwaith nifer o weithgorau thematig. Rhagwelir y bydd un o'r gweithgorau hyn yn ystyried materion yn ymwneud â phleidleisio yn 16 oed a bydd yn cynnwys sefydliadau sy'n ymwneud â datblygu'r dull o godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r etholfraint, gan gynnwys awdurdodau lleol, a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ifanc.

Y Comisiwn Etholiadol sy'n cydlynu Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Mae swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd mewn rôl ymgynghorol. Er mai mater i'w drafod gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yw hwn, o ystyried ei gylch gwaith technegol gyda ffocws ar weinyddu etholiadau, efallai y bydd mecanweithiau mwy priodol ar gyfer cynnwys partneriaid wrth ddatblygu'r gwaith hwn yn barhaus.

***Argymhelliad 13.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell, mewn perthynas â newidiadau i drefniadau goruchwylio ac ariannu'r Comisiwn Etholiadol cyn i Gyfnod 2 fynd rhagddo, y dylid darparu gwelliannau drafft a'u goblygiadau cost i roi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid graffu arnynt yn llawn cyn ei bod yn ofynnol i Bwyllgor o'r Cynulliad Cyfan waredu gwelliannau.*

**Cytuno**

Mae'r Comisiwn yn cytuno ei bod yn briodol i'r Pwyllgor gael cyfle i graffu ar oblygiadau cost y diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol. Cafodd y Llywydd drafodaethau adeiladol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ac mae hefyd wedi trafod y mater hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol sy'n arwain ar y cynigion hyn.

Rhaid i'r Cynulliad gytuno ar benderfyniad ariannol cyn y gellir bwrw ymlaen â thrafodion Cyfnod 2. Mater i Lywodraeth Cymru yw cyflwyno'r penderfyniad ariannol. Yn ystod y ddadl ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol na fyddai'n gofyn i'r Cynulliad gytuno i benderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil tan fyddai modd iddo ddarparu rhagor o wybodaeth am y cynigion.

Mae'r Llywydd yn rhagweld y bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn gyson ar y cyfan â'r ffigurau a roddwyd eisoes i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1. Dyma a ddywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

- disgwylir i gostau blynyddol y Comisiwn Etholiadol fod tua £600,000, gan gynyddu i £1.7 miliwn yn dibynnu ar y gweithgaredd etholiadol a gynhelir mewn blwyddyn benodol; a
- bydd costau craffu'r Cynulliad – dros gyfnod o bum mlynedd – yn debyg i'r costau a nodir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ar gyfer yr adran 27 gyfredol.[1]

***Argymhelliad 14.*** *Yn seiliedig ar sylwadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adran 36* (rhoi argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith)*, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywydd yn ystyried diwygio'r Bil i adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.*

**Cytuno**

Roedd tystiolaeth a ddaeth i law yn ystod Cyfnod 1 yn cefnogi'r egwyddor o ddiwygio cyfraith etholiadol ar sail cynigion Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, mae Comisiwn y Cynulliad yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch pa mor briodol yw mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddefnyddio pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth.

Yn hynny o beth, mae'r Llywydd wedi cyflwyno gwelliannau i ddileu adran 36 a pharagraff 1(4)(b) (gwelliannau 1 a 3 a gyflwynwyd ar 19 Gorffennaf 2019). Byddai'r Llywydd yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru, maes o law, yn dilyn y dull a ffefrir gan y Cwnsler Cyffredinol o fynd i'r afael ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith drwy weithdrefn ddeddfwriaeth sylfaenol gyflym.

***Argymhelliad 15.*** *Mae'r Pwyllgor yn argymell y caiff darpariaeth ar gyfer adolygiad ôl-weithredol ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn dilyn trafodion Cyfnod 2 er mwyn sicrhau bod y Bil wedi cyflawni ei amcanion polisi a bod gwerth am arian wedi'i gyflawni.*

**Cytuno**

Mae craffu ar ôl deddfu yn rhan bwysig o rôl ddeddfu'r Cynulliad. Mae Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn ceisio darparu digon o wybodaeth i lywio unrhyw waith o'r math hwn y mae'r Cynulliad neu ei bwyllgorau yn dymuno ei gynnal. Yn benodol, mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys:

---

[1] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 29 Ebrill 2019.

- amcanion polisi'r Bil;
- cynlluniau gweithredu amlinellol; ac
- amcangyfrifon o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil.

Yn amodol ar unrhyw benderfyniad i'r gwrthwyneb o dan Reol Sefydlog 26.27, mae'r Llywydd yn bwriadu cyflwyno Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl cwblhau Cyfnod 2. Bydd hyn yn cynnwys awgrym y byddai'r Comisiwn yn croesawu gwaith craffu ar ôl deddfu ar y ddeddfwriaeth o ran ei hamcanion polisi a gwerth am arian y broses o'i gweithredu. Bydd y Comisiwn hefyd yn gwerthuso ei effeithiolrwydd ei hun wrth weithredu'r agweddau hynny ar y ddeddfwriaeth y mae'n gyfrifol amdani.